**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
SeneddDCC@senedd.cymru

17 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

Yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol, ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi fod y pedwerydd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Gyfiawnder, a'r ail i'w gynnull o dan Lywodraeth bresennol y DU, wedi'i gynnal ar-lein ddydd Iau 11 Rhagfyr.

Llywodraeth Cymru oedd yn cynnal y cyfarfod a chafodd y sesiwn ei chadeirio gennyf i. Roedd Jake Richards AS, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Ddedfrydu, Cyfiawnder Ieuenctid a Chyfiawnder Rhyngwladol yn bresennol ar ran Llywodraeth y DU. Roedd Angela Constance ASA, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder a Materion Cartref, Llywodraeth yr Alban, yn y cyfarfod i gynrychioli'r Alban ac ymunodd Naomi Long, y Gweinidog Cyfiawnder, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, hefyd.

Roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip hefyd yn bresennol, gan fod materion sy'n ymwneud â'r eitem ar yr agenda ar drais yn erbyn menywod a merched yn perthyn i'w phortffolio hi.

Bydd hysbysiad a fydd yn crynhoi trafodion y cyfarfod yn cael ei gyhoeddi ar wefan gov.uk maes o law. Roedd yr agenda wedi'i threfnu gan hwyluso trafodaethau o sylwedd ar sawl pwnc. Ymhlith y pynciau hynny roedd arloesi digidol a strategaeth, trais yn erbyn menywod a merched a llwyth achosion y llysoedd. Yn ogystal â hynny, cafodd dau bapur ychwanegol a oedd yn mynd i'r afael â chapasiti carchardai a chymorth cyfreithiol eu dosbarthu er gwybodaeth, gan ddarparu rhagor o gyd-destun ar gyfer ystyried y materion a amlygwyd uchod yn drwyadl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod y drafodaeth ar arloesi digidol a strategaeth, nodais mai fy ngobaith yw y bydd technoleg newydd yn gallu bod o gymorth wrth ddrafftio deddfwriaeth, gan gynnwys diwygiadau canlyniadol. Mynegais hefyd fy nghefnogaeth i gyflwyno'r cynllun peilot *Transcribe Justice* i Gymru ym mis Ionawr 2026 gan gadarnhau hefyd fod angen gwiriadau dynol i sicrhau cywirdeb yr allbwn. Rhybuddiais fod angen ystyried y ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg yn y system gyfiawnder yn erbyn y cefndir o achosion o gamweinyddu cyfiawnder gan Swyddfa'r Post bob amser.

Yn rhinwedd ei rôl fel y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros drais yn erbyn menywod, trais domestig a thrais rhywiol, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddiweddariad ar y sefyllfa yng Nghymru. Tynnodd sylw at y cyfyngiadau o ran y pwerau datganoledig a'r angen am gydweithrediad agos ag adrannau'r DU a'r heddlu drwy'r dull Glasbrint. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod uwchgynhadledd wedi'i chynnal ym mis Medi i fynd i'r afael â diogelwch menywod a merched, a bod y Cynghorydd Cenedlaethol wedi'i hailbenodi. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet fod adolygiad ar y gweill o strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a bod diweddariadau yn cael eu gwneud i ymateb i niwed a achosir drwy dechnoleg ac ar-lein. Cadarnhawyd hefyd fod Llywodraeth Cymru yn aros am strategaeth Llywodraeth y DU ei hun ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched. Cadarnhaodd fod cydweithio parhaus rhwng y ddwy lywodraeth yn hanfodol, yn enwedig o ystyried y cyhoeddiad am ddiddymu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yn olaf, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn aros am ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion o Ran 2 o Ymchwiliad Angiolini i droseddau ag iddynt gymhelliad rhywiol.

O dan yr eitem hon, codais bryderon am fenywod yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru, gan nodi nad oes carchardai i fenywod yng Nghymru, a mynegais amheuon hefyd am y cynnydd o ran y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe.

Yn ystod y sgwrs am lwyth achosion y llysoedd, pwysleisiais fod angen ymgynghori mwy ystyrlon a gwell gan Lywodraeth y DU cyn gwneud cyhoeddiadau o'r fath. Nodais y pwynt bod yr ôl-groniad o achosion llys yn sylweddol is yng Nghymru nag yn Lloegr, ac nid yw'r sail resymegol dros ddileu'r hawl i ddewis treial gan reithgor a nodwyd gan Lywodraeth y DU yn ddilys i Gymru felly. Mynegais ansicrwydd ynglŷn â'r cyfarwyddyd a nodwyd yn yr ymateb cychwynnol i Ran 1 o Adroddiad Leveson, gan nodi bod angen parhau i drafod y materion penodol i Gymru sy'n codi. Tynnais sylw hefyd at y ffaith bod angen buddsoddiad hanfodol mewn gwaith atgyweirio a chynnal a chadw ar ein llysoedd ledled Cymru.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery